# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams*

Eich Cyf/Your Ref: Ein Cyf/Our Ref: Dyddiad/Date: 16 Mawrth 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 23 MAWRTH 2015** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams
**Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
   Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **CYFETHOL CYNGHORYDD TREF NEWYDD**
   I ystyried aelod newydd ar y Cyngor Tref yn dilyn ymddiswyddiad Cynghorydd Tref (copïau o ddau gais eisoes wedi eu hanfon i'r Cynghorwyr yn unig).

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
   I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2015.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
   I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **Nos Fercher, 11 Mawrth 2015**.

**9. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER**

I dderbyn ac ystyried enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer am 2015 / 2016.

**10. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

**(a) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH**

I dderbyn cais gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun am gyfraniad o £1,000.00 tuag at y digwyddiad eleni (yn y gyllideb eisoes) ynghyd a chais am £1,000.00 ychwanegol sef diffyg mewn ariannu.

**(b) CLWB ROTARY RHUTHN**

I dderbyn ac ystyried llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at y Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl i'w gynnal ar Ddydd Sadwrn, 11 Gorffennaf 2015 yng Nghae Ddol (copi pinc).

**11. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL**

I drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma. Aelodaeth: Cyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones a Geraint Woolford ynghyd a'r Maer a Dirprwy Faer.

**12. CYNGOR SIR DDINBYCH - PWYLLGOR SAFONAU**

I dderbyn manylion o gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau pryd y cyflwynodd y Cadeirydd 'adroddiad' yn dilyn ei bresenoldeb yng nghyfarfod o'r Cyngor Tref fis Hydref diwethaf (copi glas).

**13. GRWP LLYWIO RHUTHUN – (GYNT CYDLYNYDD Y DREF)**

I dderbyn diweddariad ac i apwyntio dau Gynghorydd Tref ychwanegol ar y Grŵp Llywio (cynrychiolwyr presennol yw Cyngr. Stephen Beach a Robert Owen-Ellis).

**14. CYLLID Y CYNGOR TREF**

I ystyried buddsoddiad o £70,000 yn unol â Strategaeth Buddsoddiad y Cyngor Tref.

**15. DATGANIAD ARIANNOL**

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 28ain Chwefror 2015 (copi gwyrdd).

**16. CYFRIFON I'W TALU**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 696 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 697 | Inland Revenue | Treth ac Yswiriant Gwladol | | 163.20 |
| 698 | Cyngor Sir Ddinbych | Goleuadau Nadolig 2014 / 15 | * | 5,422.25 |
| 699 | Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliad Benthyciad Cynghorus Cae Ddol 4 / 7. | | 7,880.00 |
| 700 | Dafydd Williams | Arian parod – stampiau ayyb | | 24.60 |
| 701 | Groundworks NorthWest | Cymdeithas Caeau Chwarae Cofeb – Ardal Chwarae | * | 1,680.00 |
| 702 | Cyngor Tref Dinbych | Tocynnau Dawns Elusennol x 2 | | 64.00 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,198.71)

**17. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 27 Ebrill 2015.

**<u>RHAN DAU</u>**

**18. CYFLOG CLERC Y DREF**

I dderbyn manylion.